**ATODIAD 1**

**Penderfyniad Cynhadledd 'Mynyddoedd Pawb' a gynhaliwyd yng Ngwersyll Glan-llyn, Llanuwchllyn ar 23ain o Dachwedd, 2013:**

*"Dymunwn fynegi pryder bod prosesau ar waith sy'n peryglu enwau lleoedd Cymraeg. Y prosesau y cyfeiriwn atynt yw 1. Anwybyddu enw Cymraeg ar le, a rhoi enw Saesneg arno. 2. Gosod enw Saesneg ochr yn ochr ag enw Cymraeg yn ddiangen, gyda'r enw Saesneg yn cael ei ddefnyddio'n gynyddol mewn cyhoeddiadau ac ar y cyfryngau. 3. Peidio â chynnwys enwau Cymraeg ar fapiau, gydag enwau Saesneg yn cael eu bathu ar gyfer y lleoedd. 4. Disodli enwau Cymraeg gwreiddiol trwy ddefnyddio cyfieithiadau o enwau Saesneg ar y lleoedd.*

*Yr ydym o'r farn y dylid codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd diogelu enwau lleoedd Cymraeg, a bod gan sefydliadau a chymdeithasau gwirfoddol, yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, ran allweddol yn y gorchwyl. Hefyd, dylai'r ysgolion sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cyfle i werthfawrogi cyfoeth enwau lleoedd Cymraeg fel rhan o'u hetifeddiaeth genedlaethol.*

*Credwn y dylai enwau lleoedd ynghyd a'r dreftadaeth a'r hanes sy'n gysylltiedig â nhw, fod yn rhan annatod o gyrsiau astudiaethau'r amgylchedd mewn addysg bellach ac addysg uwch, ac o gyrsiau gweithgareddau awyr agored gan gyrff eraill. Dylid sicrhau bod cyrff hyfforddi, canolfannau a chlybiau sy'n ymwneud â mynydda a gweithgareddau awyr agored yn parchu enwau lleoedd Cymraeg.*

*Gofynnwn i'r cyrff perthnasol megis Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru,Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (sydd â dyletswydd i ''Warchod a gwella ….. treftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol') ynghyd a chyrff eraill yn y sectorau statudol, cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat, i gymryd camau priodol i ddiogelu enwau lleoedd Cymraeg."*

Dylem ddathlu cyfoeth ein henwau lleoedd:

i ysgogi parch a diddordeb yn yr iaith Gymraeg ac i sicrhau a chynyddu'r defnydd ohoni.
cynyddu'r ymdeimlad o hunaniaeth ymysg cymunedau lleol a rhannu cyfoeth ein treftadaeth ddiwylliannol gydag eraill.
gall ennyn diddordeb ac ymwybyddiaeth ymwelwyr o gyfoeth ein treftadaeth leol ddod a buddion addysgiadol ac economaidd i ardaloedd.